Babell Y Garn Madog Nasareth Pen-llwyn Rehoboth Seion

# Gair o'r Garn

## Cylchlythyr yr Ofalaeth

Seion Rehoboth Pen-llwyn Nasareth Madog Garn Babell

Cyfres newydd, rhif 38 Calan 2017



**'A chysgod y groes yn cyffwrdd ei law'**

*Annwyl ffrindiau,*

Dyna i chi foment dyngedfennol. Gras achubol Duw ac anghenion dwys dynoliaeth yn cyfarfod mewn stabl ym Methlehem! Ganwyd y Meseia; rhwymmwyd ef mewn dillad baban a'i osod mewn preseb; talwyd gwrogaeth iddo gan fugeiliaid a doethion; wyth niwrnod yn ddiweddarach daeth amser ei enwaediad a galwyd ef Iesu – a dyna ni!

Er hynny, yn nhymor yr Adfent a'r Nadolig awn at y preseb yn y stabl yn llawn breuddwydion a ffantasïau, i ganol yr anifeiliaid a'r gwellt gan ganu'r garol enwog:

> I orwedd mewn preseb rhoed Crëwr y byd,
> nid oedd ar ei gyfer na gwely na chrud;
> y sêr oedd yn syllu ar dlws faban Mair
> yn cysgu yn dawel ar wely o wair.

Efelychiad yw'r garol Gymraeg o'r garol boblogaidd 'Away in a manger' gan fardd anhysbys. Honnodd rhai mai Martin Luther oedd yr awdur gwreiddiol, ond mae hynny'n bur annhebyg. Ydy, mae'r garol yn llawn sentimentaliaeth. Y baban yn cysgu yn dawel! *No crying he makes!* Anodd credu hynny, rywsut. A phan dynnwn ni'r ffantasïau allan o'r hanes, yr unig beth sydd ar ôl yw sgubor a chafn bwyd anifeiliaid. Pa werth yw hynny? Cystal i ni wneud heb y preseb felly. '*Away with the manger!*' Ond ni ddylid cael gwared â'r preseb yn gyfan gwbl chwaith. Mae'n wir nad oes ganddo ond rhan fechan yn y ddrama, ond y mae yno serch hynny a chanddo lawer i'w ddweud wrthym.

**Symlrwydd**, yn un peth. Roedd yr ymerawdwr Rhufeinig Cesar Awgwstws yn ddigon o ryfeddod. Ystyrid ef yn un o ddynion mwyaf ei gyfnod, yn gawr gwleidyddol. Disgrifiwyd ei deyrnas fel 'oes aur leiaf' pan oedd y *Pax Romana* (Heddwch Rhufeinig) mewn bri. Ond ni allai gwychder a chrandrwydd Rhufain hyd yn oed fodloni dyhead y galon yr adeg honno, yn enwedig gyda chaethwasiaeth a chreulondeb yn fythol bresennol yn y byd.

Ac yna fe wnaeth Duw y peth mwya syml posib, yn union fel pe bai'n dweud, 'Gwranda! Yn y cyffredin ac nid yn y rhwysgfawr y deui o hyd i'th obeithion a'th ddyheadau dwys.' Ydy, mae'r preseb yn ein tyneru ac yn ein hatgoffa fod Duw yn aml yn gweithio mewn ffordd syml a thawel. Baban arall wedi ei eni i bâr ifanc cyffredin – plentyn yn gorwedd mewn cafn bwyd anifeiliaid. Drwy'r bywyd a anwyd yn y gwair dangosodd Duw sut y dylem ninnau fyw heddiw. Dim grym gwleidyddol – dim ond y nerth syml o gariad a gwirionedd. Daeth Iesu'n Waredwr, yr hyn na allai yr un Cesar fyth fod.

Y preseb amrwd a syml! Mor wahanol i'n byd mawr prysur, llawn rhuthr! Symlrwydd dathlu'r Nadolig – does dim tebyg iddo.

Beth arall a fynegir gan y preseb? **Cydraddoldeb**. Meddai'r angel: 'Peidiwch ag ofni, oherwydd wele, yr wyf yn cyhoeddi i chwi y newydd da am lawenydd mawr a ddaw i'r *holl bobl*.' (Luc 2:11) Ac i bwy y gwnaed y cyhoeddiad? I fugeiliaid. Anodd credu'r peth! Pe bai yna raddfa o alwedigaethau yn bod ddwy fil o flynyddoedd yn ôl, byddai'r gwaith o fugeilio defaid yn go agos at waelod y rhestr. Y bugeiliaid oedd y di-nod a'r distadl mewn cymdeithas. Amheuid eu gonestrwydd i'r fath raddau fel mai prin oedd y cyfle a gaent i gyflwyno tystiolaeth mewn llys barn. Ond atynt hwy y daeth yr angel.

Felly, y tlawd a'r gwrthodedig, hwy oedd y cyntaf i fod wrth y preseb. Byddent yn gartrefol yno. A pheth arall, does dim gwahanfur mewn stabl. Mae pawb yn gyfartal a chydradd – bugeiliaid a doethion. Ac mae yna gydraddoldeb hefyd o ran cyswllt ac angen. Pwy gyfarfyddwn yn stori'r geni yn Efengyl Luc? Ymerawdwr Rhufeinig, llywodraethwr Syriaidd, gwesteiwr o Fethlehem a bugeiliaid o Jwdea. Maent i gyd yn sefyll ar yr un tir gwastad yn ôl eu hangen ysbrydol. Onid oes angen clywed y newyddion da ar bob dyn byw?

Mae'r preseb yn mynegi un peth arall wrthym: **dioddefaint.** Dag Hammarskjöld (1905–61), Cyn-ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig a ddywedodd y gallai weld, o wybod beth ddeuai ar ôl hynny, 'y preseb wedi'i leoli ar Golgotha, a'r groes eisoes wedi'i chodi ym Methlehem'. (*Vägmärken*, Markings, 1963). Ond nid Hammarskjöld oedd y cyntaf i fynegi'r safbwynt hwn. Ar fore Nadolig 1626 yn Eglwys Gadeiriol Sant Paul, Llundain, wele ddeon yr eglwys, sef y bardd John Donne (1572–1631), yn pregethu'r geiriau: 'Bu holl fywyd Crist yn ddioddefaint ar ei hyd; mae eraill yn marw yn ferthyron, ond mae Crist wedi'i eni yn ferthyr. Cafodd ef hyd i Golgotha (lle y'i croeshoeliwyd) hyd yn oed ym Methlehem (lle y'i ganwyd). Oherwydd ei ddolurusrwydd yno, buasai'r gwellt bron mor finiog â'r drain wedi hynny, a'r preseb yr un mor anesmwyth â'r groes ar y diwedd. Roedd ei eni a'i farw megis un weithred barhaus, a'i Ddydd Nadolig a'i Wener y Grog ef megis hwyr a bore yr un a'r union ddiwrnod.' (*The Sermons of John Donne*, gol. George R. Potter & Evelyn M. Simpson, 1953–62).

Cael gwared â'r preseb? Na, dim byth. Mae'r preseb, er yn amrwd a phlaen, yn ein hatgoffa o ras achubol Duw ym Methlehem, fel ar Galfaria – ein hangen ni oll.

Nadolig llawen i chi i gyd a phob dymuniad da ar gyfer y flwyddyn newydd.

*Wyn Morris (Bugail)*

# Tudalen y Plant

Rhowch gylch o gwmpas yr ateb cywir i'r cwestiynau:

1 Pwy oedd mam Iesu? Mair Elisabeth Siân

2 Ble roedd Mair y byw? Nebo Nasareth Jerwsalem

3 Beth oedd gwaith Joseff? Saer coed Ffermwr Milwr

4 Pwy ddaeth i siarad â Mair? Gloria Gabriel Galadrel

5 Beth drefnodd Cesar Awgwstws?

Cyfri'r defaid Eisteddfod Cyfri'r bobl

6 Teithiodd Mair a Joseff i ...

Bethania Bethlehem ... Basra

7 Beth oedd yn arwain y gwŷr doeth?

Lleuad Lloeren Seren

8 Ble rhoddwyd y baban Iesu i orwedd? Mewn ...

pram preseb gwely

Anfonwch y gwaith at y Gweinidog, drwy law eich athro / athrawes Ysgol Sul os dymunwch, erbyn **31 Ionawr**

Bydd gwobr o docyn llyfr gwerth £10 i'r ateb cyflawn cyntaf a ddaw allan o'r het.

Llongyfarchiadau i **Gwawr Morgan**, Ysgol Sul Unedig Bow Street, enillydd tasg y rhifyn diwethaf.

***Manylion Cyswllt y Gweinidog:***
***Y Parch Wyn Morris,***
***Berwynfa, Penrhyn-coch,***
***Aberystwyth, SY23 3EW***
***01970 820939***
***berwynfa@btinternet.com***

***Cyhoeddiadau'r Ofalaeth &c***

| | |
|---|---|
| 9 Ionawr | Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth<br>yn Festri'r Garn am 6.30 o'r gloch |
| 11 Ionawr | Noson Gwis y Morlan<br>am 7.30 o'r gloch |
| 18 Ionawr | Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro<br>Rhydfendigaid am 1.30 o'r gloch |
| 20 Mawrth | Sesiwn hyfforddiant ar waith plant<br>gyda'r Parch Gwyn Rhydderch,<br>Cyfarwyddwr Gwasanaeth Plant ac Ieuenctid,<br>Eglwys Bresbyteraidd Cymru<br>Canolfan y Morlan am 7 o'r gloch |
| 25 Mawrth | Oedfa'r Ofalaeth<br>Gwasanaeth Gollwng y Gweinidog<br>yng Nghapel y Garn am 5 o'r gloch |

Mae'r manylion hefyd i'w gweld ar wefan y Garn: www.capelygarn.org

Dilynwch ni ar Twitter @capelygarn

## Aros i fyny

Roedd Capel y Garn yn llawn bwrlwm ar
26 Hydref wrth i aelodau CIC y Garn fentro aros lan trwy'r nos i gasglu arian tuag Apêl Elain a Thŷ Hafan (elusen o ddewis yr ieuenctid).



Dechreuodd y noson am 8yh pan gawsom gyfle i chwarae lot o gemau tîm, rhedeg o gwmpas, chwarae ar y bwrdd pŵl a tennis bwrdd, a chyfle i chwarae ar yr Xbox newydd. Felly, roedd digon i'n diddanu ni.

Am hanner nos cawsom gyfle i gael bwyd gyda'n gilydd. Fe wnaethom fwynhau'r *toasties* ham a chaws, a'r *chocolate fountain* gyda ffrwythau.

Rhwng 3yb a 6yb roeddem yn teimlo bod y cloc wedi stopio, yr oriau'n mynd yn araf ac roedd pawb yn dechrau blino. Yr adeg yma fe gafodd yr ieuenctid gyfle i beintio pwpenni a gwneud crefft. Roedd pawb yn dda iawn yn annog ei gilydd i beidio cysgu. Fe aethom am dro sydyn rownd y maes parcio er mwyn helpu'r blinder, ac yna, i basio'r oriau olaf, fe wnaethom chwarae gemau bwrdd a chardiau.



Dwi mor falch o lwyddiant yr ieuenctid a gymerodd ran, a diolch yn fawr i bawb a ddaeth heibio yn ystod y nos i'n cefnogi. Mae'n fraint mawr cael dweud fod y clwb wedi codi £226 i'r elusennau yma.

**Seren y Stabl**



Yn syml iawn, bwth lluniau lle mae pobl o bob oed yn cael gwahoddiad i wisgo i fyny fel cymeriad o'r stori geni'r Iesu yw 'Seren y Stabl'. Yna, tynnir llun o'r 'cymeriad' ar ffôn symudol, gyda phreseb a'r baban Iesu, gan roi atgof parhaol o wir ystyr y Nadolig. Crëwyd y syniad o Seren y Stabl gan Scripture Union Cymru a'i gynnal mewn lleoliadau amrywiol ledled Cymru dros y tair blynedd diwethaf.

Eleni, penderfynodd Menter Gobaith gynnal Seren y Stabl ar Stryd y Popty y diwrnod yr oedd goleuadau Nadolig tref Aberystwyth yn cael eu troi ymlaen. I lawer oedd yn cymryd rhan, dyma oedd eu hunig brofiad gwirioneddol o'r Nadolig, ac roedd yn amlwg yn llawer o hwyl i blant ac oedolion – hwyl i'r teulu cyfan.

**Dyddiadau CIC— Tymor y Gwanwyn**

| | |
|---|---|
| 5 Ionawr | 2 Mawrth |
| 19 Ionawr | 16 Mawrth |
| 2 Chwefror | 30 Mawrth |
| 16 Chwefror | |

Plant Blynyddoedd 4 a 5: 6–7 o'r gloch
Plant/Ieuenctid Blynyddoedd 6, 7, 8, 9: 7–8.30 o'r gloch
Lleoliad: Neuadd Rhydypennau

Os hoffech fwy o fanylion, cysylltwch â mi: Zoe Jones (Swyddog Menter Gobaith) ar 01970 611510/07584411524.

**John Leeding (1949–2016)**

Gyda thristwch mawr y cofnodir marwolaeth y cyfaill a'r brawd hynaws John Leeding, Glannant, Tre Taliesin. Gwelir ei golli yn aruthrol, nid yn unig yn eglwys Rehoboth lle'r oedd yn flaenor, yn gyhoeddwr ac yn Ysgrifennydd y Cyhoeddiadau, ond hefyd yng Ngofalaeth y Garn a Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro fel ei gilydd. John oedd ysgrifennydd Pwyllgor yr Ofalaeth ac fel y gŵyr ei gyd-aelodau roedd yn hollol ddibynadwy yn ei waith. Cyflawnai bob dim yn dawel a diffwdan ac roedd ei bersonoliaeth addfwyn a diymhongar yn ennyn ein serchiadau oll. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf derbyniodd y swydd o fod yn un o ysgrifenyddion y Cylchoedd Pregethu yn yr Henaduriaeth, yn ogystal â golygyddiaeth y Blwyddlyfr, ac unwaith eto nodweddid ei waith gan drylwyrder a chywirdeb llwyr.

Er ei eni a'i fagu yn swydd Efrog, daeth John yn Gymro i'r carn ac roedd ei Gymraeg yn rhugl a naturiol fel unrhyw Gymro brodorol. Llyfrgellydd ysgol ydoedd o ran ei alwedigaeth, a threuliodd ei yrfa yn gweithio i Gyngor Sir Dyfed ac wedi hynny, Cyngor Sir Ceredigion. Roedd cerdded y mynyddoedd yn un o'i hoff bleserau ac ym mis Medi 2015 treuliodd dair wythnos yn cerdded llwybr y pererinion, y Camino de Santiago, o'r Pyreneau i ddinas Santiago de Compostela yng ngogledd Sbaen.

Er na chafodd John ei eni i deulu Cristnogol, daeth yn Gristion o argyhoeddiad a medrai dystio fod Iesu wedi dod i mewn i'w fywyd, fel y dengys y llythyr hwn a ysgrifennodd ataf ym mis Ebrill 2008. Atgynhyrchir ef yn awr gyda chaniatâd y teulu.

*Ynglŷn â'r dosbarth Beiblaidd nos Iau*

Fel rydych yn gwybod dydw i ddim yn dweud llawer yn y dosbarth, ond roeddwn yn ymwybodol ers sawl wythnos fod tröedigaeth Paul yn dod lan. Roeddwn wedi meddwl dweud gair, ond pan ofynnoch 'A oes rhywun wedi cael troedigaeth?' a phan sonioch chi am 'air o brofiad' nes ymlaen, aeth pobl eraill i siarad a symudodd y drafodaeth i gyfeiriad arall, a chedwais yn dawel. Ar ôl mynd adref, teimlais yn euog iawn a chywilydd fy mod wedi colli cyfle arall i ddweud gair dros Iesu. Felly dyma beth fyddwn wedi dweud petai mwy o hyder gennyf:

Yn wahanol i aelodau eraill y dosbarth, doedd neb o nheulu yn mynychu capel nac eglwys, ac ni chefais fagwraeth grefyddol. Fy unig gysylltiad â chrefydd pan oeddwn yn ifanc oedd cael fy nhrwytho yn *Hymns, Ancient and Modern* yng ngwasanaethau boreol yr ysgol.

Ar ddechrau'r saithdegau, deuthum i'r Coleg Llyfrgellwyr yn Aberystwyth, a symud i Flaenpennal, i'r Tŷ Capel. Rhan o amodau'r rhent oedd glanhau'r capel a chael y pregethwr i ginio bob yn ail Sul. Wrth ddwstio'r pulpud, byddwn yn agor y Beibl a syllu arno, ond doeddwn i ddim yn siarad Cymraeg yr amser hyn. Ar ôl tua blwyddyn a hanner, roeddwn wedi dysgu digon i fedru dilyn y bregeth, ond mi ges drafferth mawr gyda iaith y Beibl.



John yn ei elfen yn arwain taith
Mari Jones yn 2011

Daeth y cyfnod hwn yn fy mywyd i ben ym 1976, pan symudais i fflat yn Aberystwyth, a dechrau mynd allan i yfed bron bob nos. Ar yr un pryd, roeddwn yn chwilio am rywbeth o hyd a dechreuais ymddiddori mewn Bwdhaeth. Rwy'n credu fod Bwdhaeth yn apelio at bobl 'ôl-grefyddol' y Gorllewin am ei fod yn rhoi pwyslais ar beth mae'r unigolyn yn gallu gwneud i weithio mas ei achubiaeth ei hunan. Mae pawb eisiau bod yn annibynnol a chymryd rheolaeth dros eu bywydau. Eto, rhywbeth ar goll o hyd.

Ym 1979, symudais i Daliesin a dechrau mynd i gapel Soar, Tre'r-ddôl, gyda Mai a'i theulu. Am flynyddoedd, dysgais lawer am y ffydd Gristnogol, ond fel pwnc ysgol, ac nid oedd yn cyffwrdd ar fy mywyd. Roeddwn yn gwybod y dylai fod yn fwy na hynny, a theimlais fel rhywun yn edrych trwy ffenestr siop, a'r gwydr rhyngddo fi a'r pethau tu mewn. Doeddwn i ddim yn cael hi'n hawdd i weddïo, ond darllenais rhywle fod y 'Jesus Prayer' yn dweud y cwbl oedd angen. Dechreuais weddïo wrth yrru o gwmpas y sir gyda'm gwaith, 'Lord Jesus Christ, Son of God, have mercy on me, a sinner', a cheisio canolbwyntio ar ystyr y geiriau. O'r diwedd, tua deng mlynedd yn ôl, cefais ateb.

Un diwrnod, ar y ffordd i Lambed (nid Damascus), rhwng Blaenplwyf a Llanrhystud, teimlais rhyw bŵer yn dod i mewn i mi o'r tu allan. Roedd yna deimlad corfforol – aeth fy mrest yn dynn wrth i rywbeth fy llenwi, ac roedd gwres i'w deimlo tu mewn hefyd. Ond roedd y teimlad emosiynol yn fwy syfrdanol. Geiriau C. S. Lewis, 'Surprised by joy' ydy'r disgrifiad gorau.

Daeth yn sydyn ac yn hollol annisgwyl a 'Beth yw **Hyn**?' Hefyd roedd sicrwydd o fod yn saff am fod rhywun yn gofalu amdanaf a, mwy na dim, llawenydd. (Dyw 'Yorkshiremen' a 'llawenydd' ddim yn eiriau sydd yn ymddangos yn yr un frawddeg yn aml.) Rwy'n cofio lot o chwerthin am beth oedd yn digwydd, a chanu emynau. Doeddwn i ddim yn teimlo mewn rheolaeth dros fy hun, ond roedd rhywun mewn rheolaeth. Ecstasi oedd y teimlad efallai, ond nid hysteria. Rwy'n argyhoeddiedig y cefais brofiad real a dim un dychmygol. Parodd hyn am dros hanner awr. Dw i ddim yn gwybod pwy yrrodd i Lambed – fi oedd yn y sedd, ond nid fi oedd wrth y llyw. Mae'n rhaid fod yr effaith yn dal arnaf pan gyrhaeddais, oherwydd dywedodd rhywun, 'Rwyt ti'n edrych yn hapus iawn am rywbeth'. Gwenais, ond dwedais ddim byd. A dw i ddim wedi dweud dim byd tan heddiw.

Nid Paul, na Howell Harries, na John Wesley ydw i. Rwy'n teimlo mwy fel y dyn a gafodd un gôd o arian a'i guddio yn y ddaear. Rwy'n cofio chi'n dweud mewn un dosbarth, petai rhywun yn dod yn Gristion, byddai'r bobl o gwmpas yn sylwi. Dw i ddim yn gwybod a sylwodd Mai unrhyw newid; hi fyddai'r cyntaf i ddweud nad ydwyf fi ddim yn haws i fyw gyda. Rwy'n fwy ymwybodol yn awr o'm ffaeleddau fel Crision. Rwy'n dal i ffoli'n hawdd dros bethau'r byd. Rwy'n dal i gael amheuon o bryd i'w gilydd, ond mae'r amheuon yn awr amdanaf fi fy hunan: pam ydw i mor hunanbwysig i feddwl fod Duw â unrhyw ddiddordeb ynof, neu sut mae Duw yn caru rhywun diwerth fel fi? Un peth na allaf fyth amau rhagor yw fod Iesu yn fyw ac yn barod ac yn awyddus i dderbyn ni heddiw, fel erioed.

Dwn i ddim ai dyma beth oeddech chi'n olygu wrth 'gair o brofiad'. Mae'n ddrwg gen i am fod mor hirwyntog. John.

Bu'r profiad ysgytwol hwn yn fodd i drawsnewid bywyd John, a'r Iesu fu'n gyfrifol am hynny:

> O'r fath newid rhyfeddol a wnaed ynof fi,
> daeth Iesu i'm calon i fyw;
> torrodd gwawr ar fy enaid, atebwyd fy nghri,
> daeth Iesu i'm calon i fyw.
>
> (R H McDANIEL, cyf. NANTLAIS)

Diolchwn i Dduw am gael adnabod John.

Cydymdeimlwn yn ddwys â Mai, Maldwyn, Lowri a Rhun, ynghyd â gweddill y teulu, yn eu hiraeth a'u galar.

*Wyn Morris*

## Seren Bethlehem



Ym Methlem Effrata un bore o hanes
  Datguddiaist orweddle Iachawdwr y byd,
Mae'r stabal yn yfflon, ond deil dy belydryn
  I chwilio am faban a dyfodd o'r crud.

Tyrd, seren yr oesau, eleni i'n harwain
  O'r Fethlem ryfedda a droesom yn ŵyl;
O, tyrd â'th ddisgleirdeb o'r awyr i ddiffodd
  Pob seren electric sy'n cynnal ein hwyl.

Dyrchafwn ein llygaid, Gristnogion edifar,
  Mae seren ein gobaith yn dyfod ar daith.
Ai da fydd y newydd o'r dwyrain cythryblus?
  Ni fethodd ei golau syfrdanol un waith.

Awn allan i'r caddug o wres ein cartrefi,
  Addolwyr penwythnos i balmant y stryd.
O! Seren y dwyrain, mae gwaed ar dy bigau,
  Ai doeth fydd dy ddilyn yn ufudd i'r crud?

Ond wele wynepryd yr Iesu'n tywynnu,
  Wrth edrych i fyny mae'n symud y staen
Gan hollti'r cymylau a'u herchyll gysgodion
  A glân fydd dy lwybyr i symud ymlaen.

O! Seren yfory, danbeitiaf y cread,
  Dy ganfod gan ddoethion, awn ninnau ar daith
Yng nglendid dy olau i ganfod yr Iesu,
  Cans ti yw'n cyfryngwr, yn hŷn na phob iaith.

*Vernon Jones*

## Capel y Garn

### Ysgrifennydd y Cyhoeddiadau

Rydym yn ddiolchgar iawn i Gruffydd Aled Williams am fod mor barod i ymgymryd â'r swydd allweddol hon o ddechrau Ionawr ymlaen. Dymunir pob rhwyddineb iddo yn y gwaith.

Yr un pryd, diolch yn fawr iawn i Eddie Jenkins, sydd wedi cyflawni'r gwaith hwn yn arbennig raenus ac yn effeithiol yn ystod yr wyth mlynedd diwethaf hyn.

### Llongyfarchiadau calonnog:

i James January McCann, Tŷ Capel, ar ennill ei ddoethuriaeth o Brifysgol Aberystwyth, am draethawd ar un o weithiau Robert Gwyn, yr awdur Catholig o'r 16eg ganrif.

### Y Rhestr Flodau

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu blodau i harddu'r capel yn ystod y flwyddyn, ac yn arbennig i Shân Hayward a Kathleen Lewis am ofalu am y rhestr o Sul i Sul.

Os hoffech chi gyfrannu blodau yn ystod 2017, cysylltwch â Shân neu Kathleen, neu rhowch eich enw ar y rhestr yn y cyntedd, os gwelwch yn dda. Gwerthfawrogir pob cyfraniad.

### Tanysgrifio i gylchgronau

Mae nifer o aelodau'r Garn yn tanysgrifio i dderbyn rhai cylchgonau Cristnogol yn rheolaidd. Os hoffech chi ychwanegu eich enw at y rhestr, cysylltwch â'r canlynol:

*Y Goleuad*: papur wythnosol Eglwys Bresbyteraidd Cymru
– Dewi G. Hughes

*Cristion*: cylchgrawn cydenwadol a gyhoeddir bob dau fis
– Eddie Jenkins

*Gair y Dydd*: llyfryn defosiwn a gyhoeddir bob chwarter
– Marian B. Hughes

## Ionawr

*Blaenor y Mis: Marian Beech Hughes*

*I gyfarch wrth y drysau: Gruffydd Aled Williams / Alan Wynne Jones*

*Bydd yr ysgol Sul yn cwrdd yng Nghapel y Garn*

**1** Parch. Elwyn Pryse – oedfa’r bore am 10 o’r gloch yn unig

4 Cwrdd Chwiorydd y Garn am 2.30 o’r gloch
‘Atgofion’ – Carwen Fychan

**8** Dr Rhidian Griffiths

11 Noson Gwis y Morlan am 7.30 o’r gloch

13 Pwyllgor Swyddogion y Garn am 2 o’r gloch

**15** Bugail
Cymun yn oedfa’r bore

16 Pwyllgor Eglwys y Garn am 7 o’r gloch

20 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o’r gloch
‘Bridio defaid o Gymru i Seland Newydd’
yng nghwmni Dewi Jones

**22** Y Parch. Ddr John Tudno Williams

**29** Mr Lyndon Lloyd – oedfa’r bore am 10 o’r gloch yn unig

## Chwefror

*Blaenor y Mis: Dewi G. Hughes*

*I gyfarch wrth y drysau: D. Elystan Morgan / Vernon Jones*

*Bydd yr Ysgol Sul yn cwrdd yng Nghapel Noddfa*

1 Cwrdd Chwiorydd y Garn am 2.30 o'r gloch
Prynhawn yng nghwmni Eirwen Booth

**5** Oedfa'r bore am 10 o'r gloch yng Nghapel Noddfa

**12** Y Parch. John Roberts

17 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch
'Ysbrydoliaeth' **-** noson yng nghwmni Manon Steffan Ros

**19** Bugail
Cymun yn oedfa'r bore; oedfa'r hwyr ym Methlehem, Llandre

**26** Y Parch. R. W. Jones

28 Pwyllgor CIC
Festri'r Garn am 7 o'r gloch

### *Agora*

Mae *Agora* – cylchgrawn digidol Cristnogaeth21—ar gael bob mis am ddim. Ewch i wefan: cristnogaeth21.cymru a dilyn y ddolen yno.

## Mawrth

*Blaenor y Mis: Gruffydd Aled Williams*

*I gyfarch wrth y drysau: Dewi G. Hughes / Marian B. Hughes*

*Bydd yr ysgol Sul yn cwrdd yn y Garn*

3 Cyfarfod Gweddi Byd-eang y Chwiorydd
Capel Noddfa am 2.30 o'r gloch

**5** Gwasanaeth Gŵyl Ddewi am 10 o'r gloch

**12** Dr Terry Edwards

17 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7 o'r gloch
'Eisteddfod fach' eto
dan ofal Geraint Evans, Tal-y-bont

**19** Bugail
Cymun yn oedfa'r bore

20 Sesiwn hyfforddiant gwaith plant gyda'r Parch. Gwyn Rhydderch
Canolfan y Morlan am 7 o'r gloch

**26** Oedfa'r Ofalaeth am 5 o'r gloch
Gwasanaeth Gollwng y Gweinidog

## *Pen-llwyn*

Bu misoedd yr hydref yn gyfnod pan gawsom fel eglwys sawl cyfle i fynychu gwahanol weithgareddau yn ymwneud â gwaith yr eglwys, ac fe fanteisiodd rhai ohonom drwy fynychu Encil yn Nhrefeca. Cyrraedd yr adeilad cysegredig, hanesyddol yma erbyn hanner awr wedi deg y bore a phaned poeth yn ein disgwyl. Siaradwraig y bore oedd y Barchedig Megan Williams, Porthaethwy, a chawsom ganddi ran o'i Darlith Davies a draddododd yn y Gymanfa Gyffredinol yn Aberystwyth yn 2015: 'O'r Cysgodion, golwg feirniadol ar Ddarlun y Ferch yn y Beibl'. Ar ôl cinio blasus dros ben, ailymgynnull i sesiwn y prynhawn. Y Barchedig Lona Roberts o Gaerdydd oedd yn traddodi ar y testun 'Adnabod'. Llywyddwyd yn ddeheuig fel arfer gan Mrs Ina Tudno Williams ac aeth pawb tua thre am bedwar wedi teimlo mai da oedd bod yno ac yn edrych ymlaen yn eiddgar at Encil y flwyddyn nesaf, os Duw a'i myn.

Yna, ym mis Hydref cynhaliwyd cyfarfod cenhadol y chwiorydd yng Nghapel Seion pryd y cawsom y croeso twymgalon arferol. Mrs Nan Powell-Davies oedd ein siaradwraig wadd, a hithau, y diwrnod wedyn, yn gobeithio cwblhau hanner marathon Caerdydd, yn addas iawn ei thestun oedd 'Rhedeg y Ras'. Cyfeiriodd at yr Apostol Paul ac yntau'n gwneud yn siŵr fod ganddo olynydd yn Timotheus i gario'r ras ymlaen, a bod yn genhadwr teilwng dros ei Arglwydd. Prynhawn i'w gofio eto, a da yw cael manteisio ar bob cyfle i glywed neges y cenhadon yma a'u sêl dros eu cred a'u ffydd ddiysgog.

Ym mis Hydref hefyd y cynhaliwn ein Cwrdd Diolchgarwch, a'n pregethwr gwadd eleni oedd y Parchedig Ddr John Tudno Williams. Braf oedd cael ei groesawu atom a chynulleidfa deilwng wedi dod ynghyd i wrando'i neges a chlywed yr efengyl yn cael ei thraethu i ni yn ei phurdeb gan y meistr ei hun. Llywyddwyd y cyfarfod gan ein Gweinidog a oedd wedi bod wrth draed Dr Tudno pan oedd yn fyfyriwr yn y Coleg Diwinyddol yn Aberystwyth rai blynyddoedd yn ôl erbyn hyn. Does fawr o syndod ein bod yn derbyn perlau mewn pregethau ganddo yntau o Sul i Sul.



Bore Sul, 4 Rhagfyr, a ninnau'n agosáu at ddathlu'r Nadolig unwaith yn rhagor, cynhaliwyd gwasanaeth yr ysgol Sul pryd y cafodd pob plentyn ran yng Ngŵyl y Geni. Cymerodd deuddeg blant ran yn y gwasanaeth yn ogystal â phedwar o'r bobl ifanc, a chrëwyd naws arbennig iawn yn eu cwmni ac yng nghwmni'r Parch. Wyn Morris. Paratowyd bocs yn llawn o geriach y Nadolig a'r plant yn ymateb wrth dreiddio drwyddo gan ddysgu mwy am hanes y geni gwyrthiol ym Methlehem. Derbyniodd pob plentyn lyfr neu gomic yn ymwneud â'r Nadolig cyn ymadael, yn rhodd gan y Gweinidog.

Gan fod y capel ar ei newydd wedd, wedi ei baentio'n ddiweddar, hyderwn y bydd yn hwb i ninnau, un ac oll, i adnewyddu ar ddechrau 2017 ein haddunedau a'n ffyddlondeb i'r Tŷ ac yn fwy byth i'n Harglwydd Iesu Grist, sy'n Gynhaliwr ac yn Waredwr i ni i gyd.

*Heulwen Lewis*

## Ysgol Sul Unedig Capeli Bow Street

### Dydd Sul, Rhagfyr 4ydd – Ymweliad i Dalybont

Hyfryd iawn oedd cael ymuno â phlant ac athrawon Ysgol Sul Talybont am fore o hwyl y Nadolig.



Cawsom gyfle i greu Angel, addurno bisgien gan ddefnyddio siwgwr eisin, *coconut* a jeli baby i greu crud i'r baban Iesu a chwarae ambell i gêm.

Roedd yn braf cael dod at ein gilydd i ddathlu geni yr Iesu.

Diolch i'r plant a'r athrawon am y croeso.

Lois Jones






Plant Ysgol Sul Unedig Capeli Bow Street yn eu gwasanaeth Nadolig yng Nghapel y Garn fore Sul, 11 Rhagfyr. Ar ôl mwynhau parti yn y festri yn dilyn y gwasanaeth, fe fuon nhw'n cynnal gwasanaeth i'r henoed yng Nghartref Tregerddan yn y prynhawn.



## Newyddion Seion

Bore Sul, 16 Hydref, ar ran pwyllgor ysgolion Sul yr Henaduriaeth ymwelodd Mrs Heulwen Lewis, Pen-llwyn, â'r ysgol Sul yn Seion i arolygu a chefnogi gwaith y dosbarthiadau dros y flwyddyn. Gwelodd amrywiaeth o themâu yn nosbarth y plant bach a thair thema, sef y Nadolig, y Pasg a'r Pentecost yn nosbarth y plant hŷn. Canmolodd Heulwen yr arddangosfeydd a'r llyfrau lloffion a'r drafodaeth gyda'r plant am y gwaith. Wrth annerch ar y diwedd dywedodd ei bod yn falch o weld dosbarth cryf i'r oedolion ac adroddodd stori i'r plant. Diolch i bawb am eu hymroddiad a'u ffyddlondeb.

Cynhaliwyd y Bore Coffi blynyddol ar 13 Tachwedd er budd prynu adnoddau at waith yr ysgol Sul. Y dynion a'r plant oedd yn gyfrifol am drefnu'r bore, gweini'r coffi a gwerthu wrth y stondinau – cacennau, jariau a photeli a chardiau Nadolig. Diolch yn fawr am yr holl gyfraniadau ac i bawb am eu presenoldeb.

Yn oedfa Nadolig yr Ysgol Sul eleni defnyddir adnoddau Cymorth Cristnogol/Cymru er mwyn tynnu sylw at waith y mudiad a hefyd noddi taith gerdded criw o'r staff. Bydd Mr Huw Thomas, Pennaeth CCC, sy'n fab i Geraint Thomas a'r ddiweddar Margaret Thomas, Rhydyfelin, Aberystwyth, a'i gyd-weithwyr yn codi arian tuag at helpu ffoaduriaid ledled y byd trwy gerdded o Fethlehem, sir Gaerfyrddin, i'r Aifft, sir Ddinbych, yn ystod mis Rhagfyr.

*Ina Tudno Williams*

*Gyferbyn*: Peredur Owen Griffiths, Anna Jane Evans a Huw Thomas wedi cyrraedd aber afon Dyfi yn Ynys-las, bnawn Iau, 9 Rhagfyr. Mentrodd y tri, gyda Mari Grug o'r rhaglen *Bwrw Golwg*, yn y cwch hwn ar draws yr aber –gan ddwyn i gof ffawd nifer mawr o ffoaduriaid sydd wedi colli eu bywydau mewn cychod llawer mwy simsan na hwn wrth ffoi. Gellir noddi'r cerddwyr drwy'r wefan: www.justgiving.com/fundraising/Cymorth-Cristnogol-Cymru neu defnyddiwch eich ffôn symudol a thecstio: RHOI £5 i 70070

## *Ffoi i'r Aifft*





## Bethlehem yn ganolog yn y gymuned



Roedd Noson Nadoligaidd y Banc Bro a gynhaliwyd eleni ym Methlehem, Llandre, yn llwyddiannus iawn a chodwyd £500 tuag at Lyfrau Llafar Cymru.

Roedd canhwyllau yn ganolog i'r noson eleni ac wedi canu carolau yn y Parc yng ngolau cannwyll, lantern neu dortsh fe gerddwyd ar y daith symbolaidd i Fethlehem. Roedd Cadeirydd Llyfrau Llafar Cymru, Sulwyn Thomas, yn bresennol a'i brif orchwyl oedd cynnau cannwyll fawr i oleuo'r tywyllwch gydol y gweithgaredd.

Ar ddiwedd y gweithgaredd fe aeth sgwrs anffurfiol ar drywydd pwysigrwydd adeilad Bethlehem ac am gyfraniad allweddol y lle i fywyd y gymuned ynghyd â gallu'r adeilad i bontio ac i ddenu trawsdoriad o gynulleidfa. Cofiaf i rywun wneud y sylw: 'Mae pobol yn teimlo'n hapus a chysurus yn dod i Fethlehem.'



Dyma'r union beth nad yw'r capeli, yn enwedig y rhai mwy, yn llwyddo i'w wneud y dyddiau hyn. Os oes yna ddyfodol, yna mae'r neges yn glir fod angen ailfeddwl am ddefnyddioldeb ein haddoldai a'u sefydlu eto, y rhai bach a'r rhai mwy, fel canolfannau sy'n gwasanaethu trawsdoriad o drigolion ein cymunedau gydag amrywiaeth o weithgareddau. Troi'r ffocws yn ôl i'r gymuned. Ofer yw cynnal a chadw'r temlau hyn i fod at ddefnydd ecscliwsif a ffurfiol iawn, a hynny i siwtio rhai ohonom sy'n gyfarwydd â'r cod crefyddol. Rydym yn llawer rhy barod i gau capeli heb ystyried addasu ein hadnoddau er mwyn i ni eto ddechrau siarad â phobol, pwy bynnag y bônt.

Diolch i bawb ohonoch sy'n cefnogi'r gweithgareddau sy'n cael eu cynnal ym Methlehem.

*Wynne Melville Jones*

## *Cymdeithas y Chwiorydd, Rehoboth*

Croesawyd Dr D. Huw Owen, Aberystwyth, i'r cyfarfod ar brynhawn Mawrth, 11 Hydref. Ef yw awdur y gyfrol *Capeli Cymru* a chrynhoad o'r gyfrol honno a gafwyd ganddo yn ystod ei sgwrs. Cyfaddefodd fod dewis capeli i'w cynnwys yn y gyfrol wedi bod yn dasg anodd, a dangosodd nifer fawr o luniau o'r gwahanol gapeli a chafwyd hanesion diddorol am lawer ohonynt. Diolchwyd i Dr Owen am brynhawn diddorol iawn, ac yna mwynhawyd y te a chacennau a baratowyd gan Ann Humphreys a Gwen Williams.

Brynhawn Mawrth, 8 Tachwedd, croesawyd Emyr Jones o Lanrhystud atom i ddangos rhai o'r ffilmiau mae ef wedi eu cymryd o adloniant lleol. Yn eu plith cawsom weld ffilm o Gymanfa Ganu'r Ffermwyr Ifanc gydag ambell wyneb cyfarwydd neu berthynas yn dod i'r amlwg; unigolion a deuawdau yn canu mewn cyngherddau lleol, y cyfan o ddiddordeb mawr ac yn fwynhad pur. Hyfryd o beth yw fod Emyr yn barod i gofnodi ar ffilm rai o gyngherddau ac adloniant cefn gwlad, a hyn yn wirfoddol. Diolchwyd iddo am brynhawn hyfryd ac i Non, Eirlys ac Ann am baratoi'r te.

*Carys Briddon*

## **Grŵp Help Llaw Capel y Garn**

Yn ystod y misoedd diwethaf hyn, mae'r Grŵp Help Llaw wedi cefnogi pedair prif elusen, sef:

casglu stampiau i'w rhoi i Adran Awdioleg Ysbyty Bronglais ar gyfer Cŵn Clywed;

hen sbectolau i'w cyflwyno i Vision Aid;

newid mân a'r stondin lyfrau i godi arian tuag at Water Aid;

cyfraniad tuag at Taith Noddedig Cymorth Cristnogol 'Ffoi i'r Aifft'.

Mae'r grŵp yn ddiolchgar am bob cyfraniad a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn, a byddai'r aelodau'n gwerthfawrogi unrhyw gyfraniadau pellach tuag at yr ymgyrchoedd hyn yn ystod 2017.

Diolch am eich cydweithrediad.

Shân Hayward (01970 828268) a Bethan Jones (01970 611502)

## Capel y Garn – Paned a Chlonc y Nadolig



Cynhaliwyd bore coffi Cymdeithas y Chwiorydd yn festri'r Garn fore Sadwrn, 26 Tachwedd. Wrth dorri'r Gacen Adfent i ddynodi dechrau tymor y Nadolig, diolchodd y Gweinidog, y Parch. Wyn Morris, yn gynnes i Gartref Tregerddan amdani, ac yna rhannwyd y darnau rhwng pawb. Yn ogystal â chyfle i sgwrsio a mwynhau paned a mins peis roedd yno stondin o gynnyrch cartref danteithiol, cyfle i brynu cardiau Nadolig yr ysgol Sul a'r cwis ffotograffau gan Iestyn Hughes sydd wedi dod yn draddodiad bellach. Lluniau o ugain o addoldai Cymru oedd dan sylw eleni, a Dewi a Nerys Hughes lwyddodd i adnabod y nifer fwyaf ohonyn nhw. Ar ôl tynnu raffl helaeth a gwneud y symiau i gyd gwelwyd ein bod wedi casglu £450 i'w rhannu'n gyfartal rhwng Calonnau Cymru a Chapel y Garn.



***Swyddogion yr Ofalaeth***

*Cadeirydd*: Alan Wynne Jones, y Garn

*Is-gadeirydd*: Robert Williams, Rehoboth

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn **12 Mawrth**:


Mr Dewi G Hughes
Bod Hywel, Bow St
✆01970 828026
dewianerys@gmail.com

Mrs Marian B Hughes
14 Maes y Garn, Bow St
✆01970 828662
marian_hughes@btinternet.com